

'Rheol 28 Diwrnod'

Trosolwg

- Mae'r 'Rheol 28 Diwrnod' yn caniatáu i berchnogion tir ddefnyddio tir fel maes gwersylla heb gael caniatâd cynllunio ffurfiol am 28 diwrnod yn unig mewn blwyddyn galendr.
- Nodwch fod cyfyngiadau wrth ddefnyddio tir yn y modd hwn.

Cyfyngiadau o ran Amserlen

- Ni chaniateir defnyddio'r tir am fwy na 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr.
- Nid oes raid i'r 28 diwrnod fod yn olynol.
- Rydym yn argymhell eich bod yn cofnodi'r union ddyddiadau pan fo'r tir yn cael ei ddefnyddio.
- Nid yw'r 28 diwrnod fesul unigolyn neu deulu; yn hytrach cyfanswm nifer y diwrnodau y gallwch ddefnyddio'r tir mewn blwyddyn galendr.
- Mae unrhyw ddiwrnod pan fo strwythur dros dro (e.e. toiled cludadwy) yn dal ar y safle'n cyfri fel un o'r 28 diwrnod a ganiateir.

Cyfyngiadau o ran Math o Dir

- Ni ddylai'r tir fod yn rhan o unrhyw dir sy'n gysylltiedig ag adeilad presennol, yn cynnwys gerddi tŷ, parciau ceir, adeiladau amaethyddol ac adeiladau rhestredig.
- Ni chaniateir defnyddio tir sydd wedi'i gyfuno â safle carafanau presennol fel safle 28 diwrnod.

Safleoedd Carafanau Ardystiedig Eithriedig

Trosolwg

- Mae tystysgrif carafanau symudol neu wersylla eithriedig yn caniatáu i sefydliad hamdden wersylla neu garafanio ar dir heb drwydded safle neu'r angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio.

Cyfyngiadau o ran Carafanau neu Gartrefi Modur

- Gellir cael hyd at bum carafán a/neu gartrefi modur ar unrhyw adeg ar y tir.

Cyfyngiadau o ran Pebyll


- Fel arfer, bydd safleoedd ardystiedig hefyd yn cynnwys lle ar gyfer hyd at 10 o bebyll yn dibynnu os oes lle ar gael.
- Caniateir mwy o bebyll os rhoddir caniatâd gan y sefydliad sy'n cyflwyno'r dystysgrif.

Cyfyngiadau o ran Defnydd

- Ni chaniateir defnyddio'r safle ar hyd y flwyddyn.
- Rhaid adnewyddu'r drwydded safle bob blwyddyn.
- Pan ddaw'r dystysgrif i ben rhaid rhoi'r gorau i ddefnyddio'r tir fel maes carafanau.
- Rhaid symud bob carafán o'r safle cyn gynted â phosibl.

Raliau Sefydliadau Eithriedig

- Gall sefydliadau eithriedig drefnu bod eu haelodau'n ymgynnull ar safleoedd am hyd at bum diwrnod.
- Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n rhoi gwybod i'r Awdurdod pryd a ble mae hyn yn digwydd ar ddechrau'r prif dymor.



Beth a ganiateir ar safle '28 Diwrnod'

- ✓ Pebyll a phebyll trelar
- ✓ Glampio heb safle caled
- ✓ Strwythurau y gellir eu symud ar olwynion neu sgid ar ôl defnyddio'r safle, yn cynnwys toiledau cludadwy
- ✓ Cerbydau a ddefnyddir yn unig ar gyfer cludo i'r safle (ceir, faniau a threlars)
- ✓ Tir sydd dros **bum** erw – caniateir hyd at **dair** carafán ar y tro am hyd at uchafswm o **ddwy** noson
- ✓ Tir sydd o dan **bum** erw – caniateir **un** garafán yn unig am hyd at uchafswm o **ddwy** noson

Beth NA chaniateir ar safle '28 Diwrnod'

- ✗ Glampio ar safle caled – yn cynnwys ond heb i gyfyngu i: iyrtau, tipis, podiau a phebyll cloch
- ✗ Unrhyw strwythurau parhaol yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i: adeiladau amaethyddol, blociau toiledau, siopau, ystafelloedd golchi
- ✗ Cartrefi gwyliau symudol, Cerbydau Hamdden (RVs)
- ✗ Cyfleusterau dros dro ar olwynion neu sgid y mae angen trwyddedau ar wahân ar eu cyfer, yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i: 'faniau byrgyr'
- ✗ Unrhyw bwyntiau cysylltu trydan a/neu wasanaethau cyfleustodau sylweddol fel sinciau unigol sy'n annodweddiadol o gaeau amaethyddol



Gwybodaeth Bellach

Gweler www.gov.uk a chwiliwch am '**exempted organisation guidance**'.

Deddfwriaeth

Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu (1960)

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (1995)

Nodwch:

Paratowyd y daflen hon fel canllaw syml i'ch helpu, ac ni ddylid ei hystyried fel dehongliad llawn o'r gyfraith. Os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â ni:

Rheoli Datblygu

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Rhif ffôn: 01646 624800
E-bost dc@pembrokeshirecoast.org.uk

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2017



'Rheol 28 Diwrnod', Safleoedd Carafanau a Gwersylla Ardystiedig

*Canllaw byr sy'n dweud beth a ganiateir
o dan gyfraith cynllunio*



**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park**